# YSGOL BRYNREFAIL

# GWEITHDY GWRTH HILIAETH



Yn ddiweddar bu disgyblion blwyddyn 8 yn mynychu Gweithdy Gwrth Hiliaeth yng nghwmni Sebastian Korszon, sydd yn wreiddiol o wlad Pwyl ond sydd yn awr yn gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru. Cynlluniwyd y gweithdy gwybodaeth yma i ddiwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft, Lleiafrifoedd Croenddu ac Ethnig, Asiantaethau statudol, y sector gwirfoddol a'r cyhoedd. Trwy gyfres o weithdai cafodd pob disgybl gyfleu i :

- Ddarganfod am wahaniaethau hiliol, aflonyddu hiliol, camdriniaeth a thrais
- Ddarganfod am eu hawliau
- Rhoi gwybod am ddigwyddiadau a ysgogir gan hiliaeth
- Edrych am ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth
- Herio hiliaeth .

Bu trafodaethau doniol, dolurus a digri trwy'r bore gyda phawb yn unfryd ar ddiwedd y bore eu bod wedi mwynhau cyfraniad Sebastian er bod cynnwys y cwrs yn o ddyrys ar brydiau.

Sebastian Korszon
Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru